TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

IMI Diploma mewn Egwyddorion Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn Lefel 3

Yn gryno Mae cerbydau a'u systemau cysylltiedig yn dod yn fwy cymhleth yn gyson. Mae technoleg cerbydau modern sy'n datblygu'n gyson yn gofyn am dechnegwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ganfod namau ar y cerbydau hyn. Bydd y cwrs hwn yn rhoi technegau diagnostig amrywiol i ddysgwyr a'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud diagnosis o namau ar gerbydau modern.

Dyma'r cwrs i chi os...

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... Ydych eisoes wedi cwblhau Diploma Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau

... Ydych eisiau cyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

... Ydych yn dda am ddatrys problemau ac â diddordeb ysol mewn cerbydau

Beth fyddaf yn ei wneud?

Caiff y cwrs hwn ei ardystio fel Diploma Technegol a'i fwriad yw diwallu elfen ddamcaniaethol y cwrs VCQ Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn. Mae hefyd yn diwallu gofynion y Fframwaith Prentisiaeth Uwch Cynnal a Chadw a Thrwsio (Cerbydau Ysgafn).

Byddwch yn cwblhau 8 modiwl trwy gyfuniad o elfennau ymarferol a damcaniaethol, gan astudio unedau fel:

Iechyd, diogelwch a threfniadau da yn yr amgylchedd modurol
Cymorth ar gyfer rolau swyddi yn yr amgylchedd modurol
Deunyddiau, dulliau saernïo, offer a dyfeisiadau mesur a ddefnyddir yn yr amgylchedd modurol

Diagnosio a chywiro diffygion trydanol ategol mewn cerbydau
Diagnosio a chywiro diffygion mewn injans cerbydau ysgafn
Diagnosio a chywiro diffygion mewn systemau siasis cerbydau ysgafn
Diagnosio a chywiro diffygion trawsyrru a diffygion llinellau gyriant mewn cerbydau ysgafn
Archwilio cerbydau ysgafn trwy ddefnyddio dulliau penodol

Byddwch yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol, fel hunanreoli, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth busnes ac ymwybyddiaeth cwsmeriaid, datrys problemau, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ac agwedd gadarnhaol at waith.

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng profion ar-lein, gwaith cwrs, aseiniadau, gwaith portffolio ac asesiadau ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Lefel 3 mewn Cynnal a Chadw a Thrwsio Cerbydau Ysgafn
Cymhwyster/cymwysterau ategol priodol pan fo'n berthnasol i deilwra cynnwys y rhaglen er mwyn diwallu anghenion penodol y gymuned, eich anghenion penodol chi neu anghenion penodol y diwydiant.

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ddilyn y cwrs hwn, byddwch angen Diploma Lefel 2 mewn Cynnal a Chadw Cerbydau Ysgafn.

Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, a hefyd mae'r gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm yn ofynnol. Dylech fod â dymuniad cryf i weithio yn y diwydiant cerbydau modur, dylech gadw at ethos y coleg a dylech fod yn barod i wella eich lefel mewn pynciau academaidd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Tystysgrif IMIAL Lefel 4 mewn Astudiaethau Modurol Uwch ar gyfer Prif Dechnegwyr
Prentisiaeth addas
Gwaith fel technegydd beiciau modur

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol priodol, fel esgidiau ac oferôls, a fydd yn costio oddeutu £40.00. Hefyd, bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu a'ch ffolderi eich hun.